Tabl newidiadau'r ATRm

Erthygl	Disgrifiad o'r newid
Erthygl 2B	Mae'n ymestyn gofynion cynghori rheoleiddwyr amgylcheddol i swyddogaethau gwerthuso trosiannol newydd.
Erthygl 3(46)	Mae'n cyflwyno'r diffiniad o "grŵp sylweddau".
Erthygl 10	Mae'n gwneud gofynion gwybodaeth gofrestru safonol yn ddarostyngedig i Erthyglau 127B a 127NA.
Erthygl 12	Mae'n pennu gofynion gwybodaeth ar sail tunelledd yn ddarostyngedig i Erthyglau 127B a 127NA.
Erthygl 14	Mae'n addasu gofynion yr adroddiad diogelwch cemegol ar gyfer cofrestriadau trosiannol.
Erthygl 17	Mae'n cymhwyso rheolau gwybodaeth drosiannol (Erthyglau 127L a 127NB) i rhyngolynnau unigol ar y safle.
Erthygl 18	Mae'n defnyddio rheolau gwybodaeth drosiannol (Erthyglau 127M a 127NB) i rhyngolynnau unigol a gludir.
Erthygl 25(3)	Mae'n caniatáu i astudiaethau REACH yr UE hŷn gefnogi ymatebion gwerthuso trosiannol a chofrestru.
Erthygl 25A	Mae'n creu rhwymedigaethau mewn perthynas â grwpiau sylweddau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chytuno ar gategoreiddio a labelu.
Erthygl 26(3)	Mae'n diweddaru sut mae'r cyfnod diogelu data 12 mlynedd yn cael ei gyfrifo ar gyfer cofrestriadau taid.
Erthygl 91	Mae'n ymestyn yr hawl i apelio i benderfyniadau perthnasol gan yr Asiantaeth dan y darpariaethau trosiannol newydd.
Erthygl 119	Mae'n addasu'r gofyniad i'r Asiantaeth sicrhau bod gwybodaeth benodedig ar gael i'r cyhoedd.
Erthygl 127ZA	Mae'n diweddaru'r diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer y darpariaethau trosiannol, gan gynnwys diffiniadau newydd neu wedi'u diweddaru ar gyfer 'gwybodaeth Erthygl 10', 'prif unigolyn cofrestredig' a 'CLP yr UE'.
Erthygl 127B	Mae'n sefydlu gofynion gwybodaeth diwygiedig ar gyfer cofrestriadau trosiannol presennol.
Erthygl 127D	Maent yn cael eu dileu wrth i ddiffiniadau gael eu hailddatgan neu eu diwygio mewn Erthygl 127ZA newydd.
Erthygl 127L	Mae'n darparu rheolau trosiannol ar gyfer rhyngolynnau unigol ar y safle.
Erthygl 127M	Mae'n darparu rheolau trosiannol ar gyfer rhyngolynnau unigol a gludir.
Erthygl 127NA	Mae'n gosod gofynion gwybodaeth gofrestru wedi'u haddasu o dan y model cofrestru newydd.
Erthygl 127NB	Mae'n gosod gofynion gwybodaeth wedi'i haddasu ar gyfer rhyngolynnau unigol.
Erthygl 127OA	Mae'n darparu ar gyfer rhannu data a threfniadau pontio sy'n cefnogi dyrannu a gweithredu costau cysylltiedig yn deg, yn dryloyw ac anwahaniaethol o dan y model cofrestru newydd.
Erthygl 127Q	Mae'n rhoi pŵer dewisol i'r Asiantaeth ofyn am ragor o wybodaeth at ddibenion gwerthuso trosiannol dan y model cofrestru newydd.
Erthygl 127R	Mae'n sefydlu'r broses ar gyfer penderfyniadau gwerthuso trosiannol drafft, gan gynnwys ceisiadau am wybodaeth ychwanegol, hawliau sylwadau unigolion cofrestredig a gofynion hysbysu.
Erthygl 127S	Mae'n darparu ar gyfer penderfyniadau gwerthuso trosiannol terfynol. Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gafwyd ar benderfyniad drafft o dan

	Erthygl 127R, gall yr Asiantaeth fabwysiadu penderfyniad terfynol sy'n mynnu bod gwybodaeth benodol yn cael ei chyflwyno a phennu dyddiadau cau ar gyfer ei chyflwyno.
Erthygl 127T	Mae'n darparu ar gyfer adolygu gwybodaeth a gyflwynir i ymateb i benderfyniadau gwerthuso trosiannol ac mae'n galluogi'r Asiantaeth, lle bo angen, i ofyn am ragor o wybodaeth drwy benderfyniadau dilynol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cyhoeddi a chwblhau'r broses werthuso drosiannol.
Erthygl 127U	Mae'n caniatáu apeliadau yn erbyn penderfyniadau gwerthuso trosiannol yr Asiantaeth yn unol ag Erthyglau 91 i 93.